# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Medi 2016

Amser: 14.30 - 15.25

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3697

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Dai Lloyd AC (yn lle Dafydd Elis-Thomas AC)<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Glerc)<br>Sian Giddins (Dirprwy Glerc)<br>Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 360KB) Gweld fel HTML (79KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Dai Lloyd oedd yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.0a Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

### 2.1 SL(5)007 - Rheoliad Bwyd at gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth a Gofynion Cyfansoddiadol) (Cymru) 2016

### 2.2 SL(5)010 - Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### 2.3 SL(5)011 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2016

### 2.4 SL(5)012 - Gorchymyn Ansawdd a Chyflenwi Dŵr (Ffioedd) (Ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) 2016

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

3.0a Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

### 3.1 SL(5)013 - Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

## 4 Papur(au) i'w nodi:

### 4.1 Bil Cymru: Gohebiaeth gan y Pwyllgor at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

4.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd ar y modd y byddai’n ceisio sicrhau cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol i drafod Bil Cymru.

### 4.2 Bil Cymru: Gohebiaeth gyda Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi

4.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i gyfarfod â Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref i drafod Bil Cymru.

### 4.3 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-deddfwriaeth i gefnogi Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a dogfennau canllaw amrywiol ar arfer gorau

4.3a Nododd y Pwyllgor y datganiad a chytunodd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn croesawu'r dull o weithredu a amlinellir yn y datganiad.

### 4.4 SL(5)005 - Rheoliadau Gwastraff (Ystyr Adfer) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016: Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

4.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i nodi drachefn bryderon y Pwyllgor blaenorol ynghylch rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol drwy ddefnyddio'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol.

### 4.5 Gohebiaeth gan y Llywydd: Datganiadau Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn

4.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ysgrifennu at y Llywydd yn cytuno y dylid integreiddio gwaith y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgor ymhellach.
4.5b Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am amser i baratoi datganiad am ei waith ar Fil Cymru cyn ei ymweliad â Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi.

### 4.6 Cylchoedd gwaith y Pwyllgorau: Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

4.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Bil Cymru: Briff a diweddariad cyfreithiol

6.1 Cafodd y Pwyllgor bapur briffio cyfreithiol a’r wybodaeth ddiweddaraf am Fil Cymru.

## 7 Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: Ffyrdd o weithio

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei ffyrdd o weithio a chytunodd i drafod y mater eto maes o law.